

<b>Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6</b>	<b>Environment (Wales) Act 2016 Part 1 – Section 6</b>
<b><i>Adroddiad Hydref 2025 – Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnherthedd Ecosystemau</i></b>	<b><i>The Biodiversity and Resilience of Ecosystems Duty – Report October 2025</i></b>
<b>Cyngor Tref Amlwch Town Council</b>	
<p><b>Cyflwyniad a'r Cyd-destun</b>  <i>Disgrifiad byr o'r Cyngor, ei swyddogaethau a'r cyd-destun o ran sut y gallai helpu bioamrywiaeth (trwy ei swyddogaethau rheoli tir, cyllid grant, gweithgareddau addysgol e.e. graddfa ofodol a lle (e.e. faint o dir mae'n ei gynnwys, poblogaeth, praesept?) cyflawni gwasanaethau i'r cyhoedd (e.e. a yw'n destun Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?)</i></p> <p>Mae Amlwch yn Gyngor Tref ar Ynys Môn, yng ngogledd Cymru, gyda phraesept o £122,075 (blwyddyn ariannol 2025/26). Mae 2800 o drigolion ar y gofrestr etholiadol yn y tair ward etholiadol sef Tref Amlwch, Amlwch Gwledig a Phorthladd Amlwch.</p> <p>Bydd mwyafrif dylanwad Cyngor y Dref ar fioamrywiaeth drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• penderfyniadau a sylwadau ar Geisiadau Cynllunio;</li> <li>• yr amserlenni a gytunwyd gyda chontractwyr ar gyfer cynnal a chadw Mynwent Gymunedol Amlwch, Parc Lôn Goch, meysydd chwarae Maes Mona, Maes Llwyn, Lôn Wen a Chraig y Don a Pharc Natur Trehinion, ynghyd â mannau agored y mae'r cyngor yn gyfrifol amdanynt fel maes parcio sgwâr y porthladd;</li> <li>• plannu bylbiau a blodau ar ymylon strydoedd, mannau gwyrdd agored ac mewn tybiau plannu o amgylch y dref a'r porthladd.</li> <li>• cynlluniau, ar y cyd â rhanddeiliaid eraill, o fewn parciau a mannau agored i leoli blychau adar / ystumod a gwestai pryfed;</li> <li>• mentrau gwella amgylcheddol fel casglu sbwriel a darparu biniau baw cŵn a bagiau plastig bioddiraddadwy.</li> </ul> <p>Bydd bioamrywiaeth yn cael ei goruchwyllo gan y Pwyllgor Parciau a Mannau Agored, y mae cynghorydd wedi'i benodi at y diben hwn.</p>	<p><b>Introduction and Context</b>  <i>A short description of the Council, its functions and context in relation to how it could help biodiversity (through functions with regard to land management, grant funding, education activities, for e.g. spatial scale and place (e.g. how much land does it cover, population, precept?) public service delivery (e.g. is it subject to the Well-being of Future Generations (WFG) Act?)</i></p> <p>Amlwch is a Town Council on Anglesey, in north Wales, with a precept of £122,075 (financial year 2025/26). There 2800 residents on the electoral roll in the three electoral wards being Amlwch Town, Amlwch Rural and Amlwch Port.</p> <p>The majority of the Town Council's influence on biodiversity will be via:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• decisions and comments on Planning Applications;</li> <li>• the schedules agreed with contractors for the maintenance of Amlwch Community Cemetery, Lon Goch Park, Maes Mona, Maes Llwyn, Lon Wen and Craig y Don play areas and Trehinion Nature Park, along with open spaces for which the council is responsible such as the port square car park;</li> <li>• the planting of bulbs and flowers on street verges, open green areas and in planting tubs around the town and port.</li> <li>• schemes, in conjunction with other stakeholders, within parks and open spaces to locate bird / bat boxes and bug hotels;</li> <li>• environmental improvement initiatives such as litter picks and the provision of dog waste bins and biodegradable plastic bags.</li> </ul> <p>Biodiversity will be overseen by the Parks and Open Spaces Committee, a councillor from which has been appointed for this purpose.</p>

Adroddiad Gweithredu			Action Report		
Camau gweithredu i:		Wedi eu monitro gan:	Action carried out to:		Monitored by:
Cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a chaffael	<p>Mae'r effaith ar fioamrywiaeth bellach yn cael ei hystyried fel rhan o'r adolygiad o'r holl geisiadau cynllunio ac yn arbennig dyfarnu contractau y Cyngor Tref.</p> <p>Mae cynghorydd wedi cael ei benodi o fewn y pwyllgor parciau a mannau agored i oruchwylio sut mae'r Cyngor yn gweithredu i gefnogi bioamrywiaeth. Mae'r cynghorydd yn aelod/aelod ex-officio o'r pwyllgorau parciau a mannau agored, a phwyllgor y fynwent.</p>		NRAP Ob1 - embed biodiversity into decision making & procurement	<p>The impact on biodiversity is now considered as part of the review of all planning applications and in particular the awarding of Town Council contracts.</p> <p>A councillor has been appointed within the parks and open spaces committee to oversee the Town Council's actions to support biodiversity. The councillor is a member/ ex-officio member of the parks and open spaces, and cemetery committees.</p>	
Codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd	<p>Gweithio gyda rhanddeiliaid dylanwadol e.e. Cadwch Gymru'n Daclus, PCSO lleol, Ysgol Gynradd Amlwch, Ysgol Syr Thomas Jones, Caru Amlwch, Rhandroedd Cymunedol Amlwch, (rhestrwch randdeiliaid eraill yma/grwpiau cymunedol) i hyrwyddo bioamrywiaeth / cynaliadwyedd ecolegol.</p> <p>Hyrwyddo mentrau drwy gyfryngau cymdeithasol a gwefan Cyngor y Dref.</p> <p>Hyrwyddo defnydd cyfrifol o Hawliau Tramwy Cyhoeddus a chodi ymwybyddiaeth defnyddwyr o'r bioamrywiaeth gyfoethog yn yr ardal.</p>		NRAP Ob 1 - raise awareness of biodiversity & its importance	<p>Work with influential stakeholders e.g. Keep Wales Tidy, Local PCSO, Ysgol Gynradd Amlwch, Ysgol Syr Thomas Jones, Caru Amlwch, Amlwch Community Allotments (list other stakeholders here/community groups) to promote biodiversity / ecological sustainability.</p> <p>Promote initiatives via social media and the Town Council website.</p> <p>Promote the responsible use of Public Rights of Way and raise the awareness of users of the rich biodiversity in the area.</p>	

	<p>Parhau â mentrau ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth presennol a'u hatgyfnerthu.</p> <p>Sicrhau bod arwyddion gwybodaeth am fywyd gwylt / bioamrywiaeth mewn cyflwr da</p>			<p>Continue with and re-enforce existing initiatives and awareness campaigns.</p> <p>Ensure that wildlife / biodiversity information signage is in good condition.</p>	
<p>Diogelu y prif rywogaethau a'r cynefinoedd</p>	<p>Sicrhau bod gwrychoedd yn cael eu gwarchod, yn enwedig fel rhan o unrhyw geisiadau cynllunio, gydag adfer unrhyw wrychoedd / coed a dynnwyd neu a ddifrodwyd yn ystod y gwaith adeiladu.</p> <p>Sicrhau bod gwrychoedd yn cael eu rheoli yn ystod misoedd y gaeaf pan fydd y tyfiant coediog yn segur. Lle bo modd, osgoi gwaith yn ystod tymor nythu adar (Mawrth i Awst).</p> <p>Creu pentyrrau cynefin - mae pren marw a phentyrrau o ddail yn dda i ystod o rywogaethau.</p> <p>Chwiliwch am gyfleoedd i godi blychau ystlumod ac adar neu i adeiladu gwesty pryfed (darparu blychau i sefydliadau lleol eu lleoli).</p> <p>Caiff Parc Natur Trehinion ei reoli fel coetir gwylt sy'n darparu cynefin i lawer o rywogaethau gan gynnwys gwiwerod coch.</p> <p>Mae llawer o goed yn y dref yn destun Gorchmynion Cadw Coed ac yn cael eu rheoli felly. Mae Cyngor y Dref yn comisiynu arolygon diogelwch coed rheolaidd.</p>		<p>NRAP Ob 2 - safeguard principal species and habitats</p>	<p>Ensure hedgerows are protected, especially as part of any planning applications, with restoration of any hedges / trees removed or damaged during construction</p> <p>Ensure hedgerows are managed in the winter months when the woody growth is dormant. Where possible avoid work during the bird nesting season (March to August).</p> <p>Create habitat piles - dead wood and piles of leaves are good for a range of species.</p> <p>Look for opportunities to erect bat and bird boxes or to build a bug hotel (provide boxes for local organisations to site).</p> <p>Trehinion Nature Park is managed as a wild woodland providing habitat for many species including red squirrels.</p> <p>Many trees in town are subject to Tree Preservation Orders and managed as such. The Town Council commission regular tree safety surveys.</p>	

<p>Adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth</p>	<p>Parhau i reoli parciau, ymylon strydoedd a mannau gwyrdd i wella bioamrywiaeth leol.</p> <p>Trefnu i blannu bylbiau o fewn ymylon strydoedd, mewn parciau, yn y fynwent a mannau gwyrdd. Parhau i gefnogi cyfundrefnau torri gwair fel 'No Mow May' (dim toriad ym mis Mai), i ganiatáu i rywogaethau sy'n tyfu'n isel fel llygad y dydd, meillion a chraith unnos flodeuo a chynyddu nifer y pryfed sy'n ymweld â blodau, gan helpu peillwyr.</p> <p>Parhau â'r neges nad yw 'taclusrwydd yn flaenoriaeth' ar gyfer prosiectau bioamrywiaeth (nid yw natur yn daclus), ac weithiau gall gadael ardal fach i fynd yn wyllt fod yn fuddiol.</p> <p>Caiff Parc Natur Trehinion ei reoli fel coetir gwyllt sy'n darparu cynefin i lawer o rywogaethau gan gynnwys gwiwerod coch.</p> <p>Mae llawer o goed yn y dref yn destun Gorchmynion Cadw Coed ac yn cael eu rheoli felly. Mae Cyngor y Dref yn comisiynu arolygon diogelwch coed rheolaidd.</p>		<p>NRAP Ob3 - restore &amp; create habitats and resilient ecological networks</p>	<p>Continue to manage parks, street verges and green spaces to enhance local biodiversity.</p> <p>Arrange for bulb planting within street verges, in parks, the cemetery and green spaces. Continue to support mowing regimes such as No Mow May, to allow low growing species like daisies, clover and self-heal to flower and increase the number of flower-visiting insects, helping pollinators.</p> <p>Continue with the messaging that 'tidiness is not a priority' for biodiversity projects (nature isn't neat), and that sometimes just leaving a small area to go wild can be beneficial.</p> <p>Trehinion Nature Park is managed as a wild woodland providing habitat for many species including red squirrels.</p> <p>Many trees in town are subject to Tree Preservation Orders and managed as such. The Town Council commission regular tree safety surveys.</p>	
<p>Mynd i'r afael ag elfennau negyddol: lleihau llygredd e.e. defnyddio atebion yn seiliedig ar natur, mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol</p>	<p>Adolygu'r defnydd o blaladdwyr yn y gymuned i fynd i'r afael â chwyn, yn enwedig ar hyd ymylon ffordd, parciau a mynwent</p> <p>Nodi a chael gwared ar rywogaethau ymledol fel Canclwm Japan, Jac y Neidiwr ac ati.</p>		<p>Tackle negative factors: for e.g. reduce pollution, use nature based solutions, address invasive species</p>	<p>Review the use of pesticides in the community to tackle weeds, particularly along the roadside verges, parks and cemetery.</p> <p>Identify and remove invasive species such as Japanese Knotweed, Himalayan Balsam etc.</p>	

	<p>Grwpiau cymorth sy'n casglu sbwriel i gadw'r lonydd yn rhydd o sbwriel a chefnogi bywyd gwylt. Trefnu casgliadau sbwriel rheolaidd.</p> <p>Anogi ddefnyddwyr cychod sy'n lansio o Borth Llechog i ddefnyddio cychod mewn modd sy'n parchu bywyd gwylt.</p> <p>Darparu bagiau plastig bioddiraddadwy a biniau baw cŵn.</p>			<p>Support groups who carry out litter picking to keep the lanes free of rubbish and support wildlife. Arrange regular litter picks.</p> <p>Encourage the watercraft users who launch from Porth Llechog/Bull Bay to use craft in a manner that respects wildlife.</p> <p>Provide biodegradable plastic bags and dog waste bins.</p>	
Defnyddio, gwella a rhannu tystiolaeth	<p>Cysylltu ag aelodau'r gymuned sydd wedi mabwysiadu tybiau plannu i rannu arferion gorau / syniadau i annog defnyddio llwyni, planhigion blynyddol a lluosflwydd sy'n gyfeillgar i beillwyr.</p> <p>Anog yr ysgol a grwpiau cymunedol eraill i ymgymryd â phrosiectau ar flodau gwylt / bywyd gwylt sy'n byw yn y parciau, y fynwent a'r mannau gwyrdd. Darparu 'nawdd' os oes angen.</p> <p>Cefnogi grwpiau prosiect newydd a rhai sydd eisoes wedi'u sefydlu i hyrwyddo a gwella eu gwaith i wella cynefinoedd ac arferion gwyrdd.</p>		Use, improve and share evidence	<p>Liaise with members of the community who have adopted planting tubs to share best practice / ideas to encourage the use of pollinator-friendly shrubs, annuals and perennial plants.</p> <p>Encourage the school and other community groups to undertake projects on wild flowers / wildlife that lives in the parks, cemetery and green spaces. Provide 'sponsorship' if required.</p> <p>Support new and already established project groups to promote and improve their work to enhance habitat and green practices.</p>	
Cefnogi capasiti ac/neu sefydliadau eraill	<p>Parhau i reoli a gwella'r bylbiau a'r blodau gwylt ar ymylon strydoedd, yn y parciau, y fynwent a mannau gwyrdd eraill.</p> <p>Cefnogi ceisiadau gan sefydliadau lleol ar gyfer plannu bylbiau a hadau.</p>		Support capacity and/or other organisations	<p>Continue to actively manage and enhance the bulbs and wildflowers on street verges, in the parks, the cemetery and other green spaces.</p> <p>Support requests from local organisations for bulb planting and seed bombs.</p>	

	<p>Darparu tybiau a meinciau plannu mewn lleoliadau strategol o fewn y gymuned. Mae'r tybiau a'r meinciau wedi'u gwneud o blastig wedi'i ailgylchu er mwyn eu cadw'n hir ac i osgoi defnyddio cadwolion.</p> <p>Plannu'r tybiau plannu gyda blodau sy'n gyfeillgar i beillwyr.</p> <p>Anog tîrfeddianwyr i osgoi torri gwrychoedd rhwng Ebrill ac Awst, ac i fabwysiadu cyfundrefnau torri gwair mwy bio-gyfeillgar (dim torri ym mis Mai), unwaith eto i ganiatáu i rywogaethau sy'n tyfu'n isel fel llygad y dydd, meillion a hunan-iachâd flodeuo, a chynyddu nifer y pryfed sy'n ymweld â blodau i helpu peillwyr..</p>			<p>Provide planting tubs and benches at strategic locations within the community. Tubs and benches are made from recycled plastic for long life and to avoid the use of preservatives.</p> <p>Plant the planting tubs with pollinator friendly flowers.</p> <p>Encourage landowners to avoid hedge cutting between April and August, and to adopt more bio-friendly mowing regimes (no mow May), again to allow low growing species like daisies, clover and selfheal to flower, and increase the number of flower-visiting insects to help pollinators.</p>	
<p align="center"><b>Arolwg o ddyletswydd Adran 6</b></p>			<p align="center"><b>Review of s6 duty</b></p>		
<p>Beth sydd wedi gweithio'n dda? Beth fu'r rhwystrau? Beth fyddwch yn ei newid?</p> <p><b>Beth sydd wedi gweithio'n dda?</b> Dim ond yn ddiweddar y mae Cyngor y Dref wedi datblygu a mabwysiadu'r Cynllun Bioamrywiaeth yn ffurfiol a bydd yn ei adolygu'n flynyddol.</p> <p>Mae'r Pwyllgor Parciau a Mannau Agored wedi cyfarfod yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ac wedi penodi cynrychiolwyr ar gyfer llwybrau troed a bioamrywiaeth.</p> <p>Pan fydd ceisiadau cynllunio yn cael eu hystyried gan Gyngor y Dref, mae effaith amgylcheddol ehangach unrhyw geisiadau yn cael eu hystyried yn ofalus.</p> <p>Bydd y cyngor yn archwilio'r effaith ar unrhyw gynigion ar: -Atal tynnu gwrychoedd a choed (gyda gwneud iawn am unrhyw ddifrod anochel a achosir gan offer adeiladu ac ati).</p>			<p>What has worked well? What have the barriers been? What will you change?</p> <p><b>What's worked well?</b> The Town Council have only recently developed and adopted the Biodiversity Plan formally and will review on an annual basis.</p> <p>The Parks and Open Spaces Committee have met on a regular basis throughout the year and have appointed representatives for both footpaths and biodiversity.</p> <p>When planning applications are considered by the Town Council the wider environmental impact of any applications are carefully considered.</p> <p>The council will examine the impact on any proposals on: -The prevention of the removal of hedgerows and trees (with any unavoidable damage caused by construction equipment etc made good).</p>		

<p>-Yr effaith ar ddraenio / cyrsiau dŵr lleol. -Gwella bioamrywiaeth fel rhan o unrhyw gais.</p> <p>Mae ardaloedd o fewn y parciau, y fynwent a'r ymylon wedi'u plannu â bylbiau. Mae gwestai pryfed a blychau adar wedi'u lleoli o fewn y parc(au).</p> <p>Dim torri gwair ym mis Mai. Mae ardaloedd o fewn y parciau a'r fynwent wedi mabwysiadu'r arfer hwn i annog ymddangosiad ystod eang o flodau gwyllt.</p> <p>Mae Cyngor y Dref yn cynnal casgliadau sbwriel rheolaidd o fewn yr holl barciau a mannau gwyrdd y mae'n gyfrifol amdanynt. Mae person a gyflogir gan CSYM yn ymfalchïo mewn cadw'r dref yn rhydd o sbwriel. Mae Cyngor y Dref yn parhau yn ei ymdrech i leihau ei ôl troed carbon a chodi ymwybyddiaeth o effeithlonrwydd ynni, rheoli gwastraff a hyrwyddo gweithgareddau gwyrdd.</p> <p><b>Beth sydd heb weithio cystal?</b> Dim ond yn ddiweddar y mae Cyngor y Dref wedi datblygu a mabwysiadu'r Cynllun Bioamrywiaeth yn ffurfiol a bydd yn ei adolygu'n flynyddol.</p>	<p>-The impact on local drainage / watercourses. -Enhancement of bio-diversity as part of any application.</p> <p>Areas within the parks, cemetery and verges have been planted with bulbs. Bug hotels and bird boxes have been located within the park(s).</p> <p>No mow May. Areas within the parks and cemetery have adopted this practice to encourage the appearance of a wide range of wild flowers.</p> <p>The Town Council carry out regular litter picks within all parks and green spaces for which it is responsible. A person employed by IACC, takes pride in keeping the town free of litter. The Town Council continue in its attempt to reduce its carbon footprint and raising awareness of energy efficiency, waste management and promoting green activities.</p> <p><b>What's not worked so well?</b> The Town Council have only recently developed and adopted the Biodiversity Plan formally and will review on an annual basis.</p>
<p><b>Sut a phryd fydd y ddyletswydd Adran 6 yn cael ei monitro a'r cynllun Adran 6 wedi'i adolygu?</b> Bydd y ddyletswydd yn cael ei monitro drwy'r cynrychiolwyr penodedig/pwyllgorau perthnasol, gan adrodd yn ôl i'r cyngor ar lwyddiant neu fethiant unrhyw gamau gweithredu a gymerir - drwy asesiadau rheolaidd, a diweddariadau blynyddol mwy ffurfiol.</p>	<p><b>How and when will the s6 duty be monitored and the s6 plan reviewed?</b> The duty will be monitored through the appointed representatives/ relevant committees, reporting back to the council on the success or otherwise of any actions - taken through regular assessments, and more formal annual updates.</p>

Mabwysiadwyd / Adopted HYDREF 2025 OCTOBER